**Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau**

**15 Chwefror 2023**

Yn bresennol: Cynghorydd D Clements, Mrs S Hoss, Dr R Plummer a’r Cynghorydd M Wiggins.

(Cyfarfod Rhithiol: 2.00pm – 2.50pm)

**1. Ethol Cadeirydd**

**Penderfynwyd** yn unfrydol i ethol Mrs J James yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**

**Penderfynwyd** yn unfrydol i ethol Dr R Plummer yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

*[Yn absenoldeb y Cadeirydd, cymerodd y Dirprwy Gadeirydd y Gadair a llywyddu gweddill y cyfarfod.]*

**3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mrs J James, Cynghorydd M James, Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall a’r Cynghorydd A Wilcox.

**4. Gair o Groeso**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Anna Jones, yr Arweinydd Strategol Rhagoriaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu, sy’n gweithio ar draws pob un o’r Tirweddau Gwarchodedig yng Nghymru. Ei diddordeb mewn mynychu'r Pwyllgor oedd materion sy’n ymwneud â hyfforddi Aelodau.

**5. Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**6. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai 2022 i’w cadarnhau a’u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai 2022.

**7. Diweddariad Cyffredinol ar Gefnogi a Datblygu Aelodau**

a) <u>Rhaglen Sefydlu Aelodau</u>

Dywedwyd bod y saith Aelod newydd a benodwyd i'r Awdurdod yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol yn 2022 i gyd wedi derbyn eu

cyfnod sefydlu craidd, ynghyd â rhai o'r elfennau eraill yr oedd pob Aelod, yn newydd ac yn dychwelyd, wedi'u gwahodd i'r sesiynau. Hefyd dywedwyd bod Aelod Arweiniol dros seiberddiogelwch wedi'i benodi, a bod y swyddogion ar hyn o bryd yn treialu pecyn hyfforddiant ar-lein ar y pwnc hwn fyddai'n cael ei gyflwyno i bob Aelod maes o law.

Nododd yr Aelodau bod llawer o waith wedi'i wneud ar y rhaglen sefydlu, a gofynnwyd a oedd unrhyw werthusiad wedi'i wneud o’r rhaglen. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd bod arolwg barn wedi'i anfon at bob Aelod newydd, a bod yr adborth wedi bod yn gadarnhaol.

**Nodwyd.**

b) <u>Cyfraniad tuag at gostau lwfans gofal</u>
Atgoffwyd yr Aelodau bod hawl ganddynt – yn ogystal ag Aelodau Cyfetholedig – i hawlio cyfraniad tuag at unrhyw gostau gofal oedd yn daladwy yn sgîl cyflawni eu dyletswyddau ar yr Awdurdod. Gerbron y Pwyllgor oedd polisi yn nodi'r hyn y gellid ei hawlio, a’r modd o wneud hynny, a phetai yn cael ei gytuno, byddai'n cael ei lanlwytho i wefan yr Awdurdod. Y gobaith oedd y byddai hyn yn annog darpar Aelodau – Llywodraeth Cymru, y Cyngor Sir, neu aelodau cyfetholedig – i wneud cais pan fyddai lleoedd gwag yn codi.

Roedd yr Aelodau yn falch gweld y camau i ennyn ymwybyddiaeth o’r cymorth oedd ar gael, ac roeddent yn hapus â ieithwedd ac arddull y polisi. Dywedodd y swyddogion bod rhai Aelodau yn hawlio costau gofal ar hyn o bryd, a rhoddwyd sicrwydd, er bod y swm a hawliwyd wedi'i gofnodi yn y Rhestr flynyddol o Gydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau, nad oedd y costau yn cael eu priodoli i Aelodau unigol. Awgrymwyd y dylid cynnwys datganiad i'r perwyl hwnnw yn y polisi.

**Penderfynwyd** rhoi'r polisi ar gyfraniadau tuag at gostau lwfans gofal ar wefan yr Awdurdod, yn amodol ar gynnwys y datganiad uchod.

c) <u>Adolygiadau o Ddatblygiad Personol</u>
Dywedwyd bod llai na hanner yr aelodaeth wedi cwblhau eu hadolygiad datblygiad personol hyd yn hyn. Atgoffwyd yr Aelodau bod yr adolygiad yn arf defnyddiol iddynt ôl-ystyried eu rôl o fewn yr Awdurdod ac i glustnodi unrhyw agweddau y byddent o bosibl yn dymuno eu cryfhau er mwyn eu gwneud hyd yn oed yn fwy effeithiol fel aelod o’r Awdurdod.

Roedd y Cadeirydd wedi annog pob Aelod o’r Pwyllgor i gwblhau eu hadolygiad. Fodd bynnag, nodwyd bod rhywfaint o ddyblygu, i’r Aelodau hynny a benodwyd gan Lywodraeth Cymru oedd yn cael arfarniad blynyddol, ac i Aelodau Cyngor Sir Penfro oedd yn cael eu

hannog i gwblhau asesiad o’u hanghenion dysgu. Awgrymwyd y gellid ystyried symleiddio'r system, o bosibl drwy wneud yr adolygiadau ar wahanol adegau o'r flwyddyn, neu Aelodau'r Cyngor Sir yn eu cwblhau bob yn ail flwyddyn â’r Cyngor Sir.

**Nodwyd.**

d) Cynllun Hyfforddiant

Roedd y cynllun hyfforddiant presennol wedi'i atodi i'r adroddiad ac roedd hwn yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn yn erbyn y cynllun. Dywedwyd y byddai'r ddogfen yn cael ei diweddaru unwaith y byddai cynlluniau cymorth personol yr Aelodau wedi’u dychwelyd, a gyflwynwyd fel rhan o'r broses Adolygiadau o Ddatblygiad Personol.

Dywedodd un Aelod nad oedd gan rai pynciau unrhyw ddiweddariad gan ychwanegu mai da o beth fyddai cael cynllun amser cyffredinol ar gyfer rhai o'r eitemau hyn. Atebodd y swyddog mai rhaglen dreigl yw’r Cynllun, ac na ellid cyflawni pob elfen yn ystod y flwyddyn. Hefyd roedd eitemau ychwanegol wedi'u hychwanegu mewn ymateb i faterion oedd wedi codi. Serch hynny, gellid darparu gwybodaeth bellach mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Dywedodd Aelodau eraill bod yr Aelodau yn gyfrifol am eu datblygiad eu hunain ac y gellid gwneud mwy o ddefnydd o fodiwlau ar-lein, er y nodwyd hefyd bod Cynghorwyr yn dilyn modiwlau penodol, megis Diogelu, Diogelu Data a Seiberddiogelwch, drwy system Cyngor Sir Penfro. Atebodd y swyddogion bod sesiynau yn cael eu trefnu ar y cyd â'r Cyngor Sir pryd bynnag y bo'n bosibl, a gofynnwyd i’r Cynghorwyr, yn arbennig, dynnu sylw at unrhyw beth allai fod yn berthnasol i’r Aelodau eraill.

**Nodwyd.**

e) Presenoldeb yr Aelodau

Dywedwyd bod presenoldeb yr Aelodau yn y flwyddyn hyd yn hyn mewn cyfarfodydd yn 93% (targed 75%), tra bod presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddiant yn 79% (targed 65%).

**Nodwyd.**

f) Gair o Ddiolch

Gan nodi mai hwn oedd cyfarfod olaf y Pwyllgor cyn ymddeoliad y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd, diolchodd y Cadeirydd iddi am ei chyfraniad personol tuag at gefnogi’r Aelodau, a gobeithiai y byddai'r ethos hwn yn cael ei gario ymlaen gan ei holynydd.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 14/06/2023 heb eu diwygio.